Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Papur Diffinio Problemau: Grŵp Arbenigol 3

Cyfleu Hawliau Mynediad

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42943 ISBN Digidol 978-1-80391-113-7

# Rhagair

Yn 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a oedd yn cynnwys diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad. Nododd dull y llywodraeth o weithredu'r cynigion mynediad yn ôl egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y canlynol:

- Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos y gall atebion sy'n seiliedig ar natur hybu iechyd corfforol a meddyliol. Dyna pam yr ydym, fel llywodraeth, wedi ymrwymo i gynyddu mynediad pobl i'n cefn gwlad, a'u mwynhad ohono – er mwyn manteisio ar y buddion iechyd a llesiant llu a geir o fod yn yr awyr agored.
- Mae cefn gwlad hygyrch yn cefnogi'n hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan twristiaeth.

Ar 4 Ebrill 2019, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn amlinellu ymateb y llywodraeth i'r cynigion mynediad o fewn Pennod 4. Yn y datganiad hwn, nodwyd saith cynnig yr oedd angen eu hystyried yn fanylach o safbwynt y ffordd y dylid eu datblygu ymhellach. Yn dilyn hyn, sefydlodd y Dirprwy Weinidog '**Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad**' annibynnol, yn cynnwys grŵp llywio a thri grŵp arbenigol, i ystyried y cynigion hyn ymhellach a gwneud argymhellion o safbwynt eu gweithredu.

Ym mis Rhagfyr 2019, comisiynwyd Partneriaeth BRO i wneud y canlynol:

- Adolygu nifer o'r ymatebion allweddol i ymgynghoriad 2017.
- Cynllunio a chyflenwi gweithdai a hwylusir ar gyfer pob un o'r tri grŵp arbenigol.
- Llunio tri **Phapur Diffinio Problemau** i'w hystyried gan grŵp llywio'r Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad.

# Grŵp Arbenigol 3: Cyfleu Hawliau Mynediad

**Bwriad y polisi: Gwella'r broses o greu, storio a rhannu mapiau mynediad statudol, a datblygu dull mwy integredig o gynllunio gwelliannau i'r ddarpariaeth mynediad.**

Gofynnwyd i Grŵp Arbenigol 3 ystyried datblygiadau ym maes storio a chyfathrebu gwybodaeth gan ddefnyddio technoleg ddigidol a darparu ar gyfer mwy o integreiddio o ran cynllunio a rheoli mynediad, ynghyd â gwaith mapio ar gyfer y cyhoedd.

Yn ystod ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2020, trafododd y grŵp arbenigol fanylion y diwygiad o dan dri phennawd. Ystyriodd is-grwpiau bob un o'r rhain yn ei dro, ac yna, trwy gynnal trafodaethau llawn yn ystod sesiynau rhannu adborth, cyfunwyd safbwyntiau pob aelod.

# Diwygiad 3A – Mapiau mynediad

| |
|---|
| Cyflawni system fwy integredig sy'n haws ei diweddaru ar gyfer mynediad cyhoeddus statudol ac ar gyfer ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, a darparu mapiau cynhwysfawr a hawdd cael mynediad iddynt at ddefnydd cyhoeddus. |

Y tair thema ar gyfer Diwygiad 3A oedd:

- Cwmpas
- Y prosesau angenrheidiol ar gyfer llunio'r map digidol a'i gynnal
- Materion yn ymwneud â defnyddio'r map.

Amlinellir pob un o'r rhain isod:

## Cwmpas

Un o'r materion cyntaf y bydd angen cael eglurder yn ei gylch trwy'r cam nodi opsiynau yw diben(ion) map digidol newydd o safbwynt y canlynol:

- Ei ddefnydd fel cofnod o hawliau mynediad statudol
- Ei werth fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer y cyhoedd.

Mae gan y ddau ddiben hyn ddefnyddwyr gwahanol, a bydd angen ystyried hyn.

O ganlyniad, ceir cryn le o safbwynt yr hyn y gellid ei gynnwys ar y map, gan ddibynnu ar ei ddiben, a gallai fod yn gymysgedd o'r canlynol:

- Mynediad statudol, gan gynnwys y canlynol:
  - Hawliau tramwy cyhoeddus
  - Tir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
  - Llwybrau Cenedlaethol
  - Tir comin
- Mynediad cyhoeddus hirdymor nad yw'n statudol, gan gynnwys y canlynol:
  - Tir a reolir gan CNC
  - Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
  - Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol
  - Llwybrau caniataol
  - Mannau agored cyhoeddus, gan gynnwys y rheiny y dyfarnwyd Gwobr y Faner Werdd iddynt, a Pharciau Gwledig
  - Cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ymwneud â defnydd mynediad, e.e. meysydd parcio addas

- Traethau, gan gynnwys y rheiny y dyfarnwyd y Faner Las, Gwobr Glan Môr y DU a'r Wobr Arfordir Glas iddynt.

Wrth ddatblygu opsiynau, bydd angen ystyried hefyd a ddylid cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd ardaloedd mynediad gwahanol ar gyfer gweithgareddau amrywiol. Gallai hyn, i raddau, annog pobl i beidio â gwneud gweithgareddau amhriodol ac i ymddwyn yn briodol, a lleihau'r pwysau ar ardaloedd a llwybrau sensitif. Efallai y bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i'r cyhoedd gynllunio teithiau ac ystyried pethau fel hygyrchedd, dringfeydd, argaeledd mannau parcio, gatiau, camfeydd a seilwaith arall, ynghyd â gwaharddiadau a chyfyngiadau ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, neu hawliau tramwy cyhoeddus sydd wedi'u cau, eu dargyfeirio neu eu cyfyngu dros dro.

Wrth ystyried p'un a ddylid cynnwys gorchmynion addasu mapiau diffiniol a gorchmynion llwybr cyhoeddus ar y map integredig, bydd angen ystyried faint o amser y byddai ei angen ar gyfer cwblhau prosesau o'r fath, o safbwynt cyfreithiol, a'r amrywiaeth a geir rhwng awdurdodau. Gallai hyn godi'r cwestiwn a fyddai'r wybodaeth yn wirioneddol 'ddiffiniol', e.e. o ran defnyddio'r map ar gyfer chwiliadau cyfreithiol.

Felly mae gan y map digidol y potensial i gynnwys amrediad eang o wybodaeth ac arweiniad o ran ble i fynd a'r hyn y gellir ei wneud. Fodd bynnag, po fwyaf y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y map, y mwyaf y perir i wybodaeth a phrosesau ddod yn orgymhleth ac anos sicrhau eu cysondeb, eu cywirdeb, a ph'un a ydynt wedi'u diweddaru'n llwyr. Pe byddai'r map yn cynnwys yr opsiwn i argraffu, gallai hynny ddwysáu'r problemau posibl hyn.
Gan ystyried y cymhlethdodau posibl, efallai, ar gyfer yr opsiynau a ddatblygir, y byddai modd ystyried p'un a ellid cyflwyno diwygiadau yn raddol, gan amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer ychwanegu haenau o wybodaeth newydd, ac ymestyn ymarferoldeb.
Yn yr un modd â diwygiadau eraill, gall materion trawsffiniol godi, a dylid eu hystyried o fewn yr opsiynau a ddatblygir.

## Y prosesau angenrheidiol ar gyfer llunio'r map digidol a'i gynnal

Ceir man cychwyn da o ran y ffaith fod pob awdurdod lleol bellach yn defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol i gasglu data, ynghyd â ffyrdd tebyg o gofnodi a rheoli mynediad, e.e. trwy feddalwedd fel y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS). Yn ogystal, mae gan lawer o awdurdodau haenau sydd wedi'u digideiddio ar gyfer llawer o ffurfiau eraill ar wybodaeth mynediad, e.e. adeileddau ar lwybrau neu arwynebau llwybrau. Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol yn debygol o gadw elfennau gwahanol o ddata, i raddau anghyson posibl, a bydd angen ystyried sut i oresgyn hyn wrth ddatblygu'r opsiynau.

Ceir, felly, nifer o faterion ymarferol, technegol a chyfreithiol y bydd angen eu hystyried, fel a ganlyn:

- Mae pob awdurdod lleol yn cadw mapiau diffiniol ar ffurf copïau papur, ac mae'n ofynnol cael gorchymyn cyfreithiol er mwyn gwneud unrhyw newidiadau. Mae cwestiwn yn codi ynghylch manwl gywirdeb mapiau diffiniol cyhoeddedig, a chredir nad yw llawer ohonynt bellach yn gyfredol. Byddai 'map diffiniol digidol cenedlaethol' dim ond cystal â data'r ffynhonnell.
- Gallai cyhoeddi llwybr ar y map digidol cenedlaethol roi'r argraff i'r defnyddiwr ei fod yn agored ac yn hygyrch – ond, fel ar hyn o bryd, nid felly y bydd hi ymhob achos.
- Gallai'r amlder y gwneir diweddariadau amrywio ledled Cymru. Sut fyddai defnyddwyr yn gwybod pryd y cafodd gwybodaeth ei diweddaru ddiwethaf?
- Pe câi gwybodaeth ychwanegol o ffynonellau eraill y tu allan i'r map diffiniol ei chynnwys ar fap digidol newydd, mae'n bosibl y câi ei chadw ar raddfeydd gwahanol, ar lefelau

gwahanol o fanwl gywirdeb, a chan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol gwahanol. Sut y câi'r mathau gwahanol o wybodaeth hyn eu cysoni?

- Byddai angen sicrhau bod ‘prosesau digidol’ eglur, gan gynnwys ffordd o gynnal trywydd archwilio ar gyfer unrhyw newidiadau a wnaed i'r wybodaeth gyfreithiol-berthnasol ar fap diffiniol digidol, gan y byddai gofyn amdano mewn achosion cyfreithiol, er enghraifft.
- Mae angen ystyried hefyd faint o lwybrau beicio i'w cynnwys, gan nad yw'r rhain wedi'u cofnodi ar fapiau diffiniol ar hyn o bryd.
- A fyddai'r data mynediad ar gael ar ffurf ffynhonnell agored ar gyfer ei ddefnyddio gan drydydd partïon? Sut y gellid rheoli hyn?
- Byddai angen ystyried sylfaen y map a gâi ei ddefnyddio ar-lein. Ar hyn o bryd, mae mapiau diffiniol yn defnyddio gwybodaeth sylfaenol OS, ond gallai materion hawlfraint godi os y nod yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd neu drydydd partïon.

## Materion yn ymwneud â defnyddio'r map

Yn ogystal â phenderfynu diben y map newydd, bydd angen ystyried sut y ceir mynediad iddo a sut y caiff ei ddefnyddio. Pwy fydd am gael mynediad i'r wybodaeth a pham? Ai staff awdurdodau lleol yn unig, y rhoddir yr hawl iddynt gael mynediad iddi a’i diweddaru, neu a fydd tirfeddianwyr a defnyddwyr hawliau tramwy yn cael eu cynnwys hefyd er mwyn iddynt allu asesu llwybrau ac adrodd am broblemau, o bosib? Ar hyn o bryd, mae pobl yn cael mynediad i wybodaeth ddigidol mewn ffyrdd gwahanol ac, wrth ddatblygu map newydd, bydd angen ystyried pa blatfformau fydd yn briodol, ac ystyried safon y signal ffonau symudol mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol anghysbell.

Er mwyn sicrhau hyder cyhoeddus mewn map digidol newydd, mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn fanwl gywir ac yn gyfredol. Os bydd awdurdodau lleol yn dilyn amserlenni gwahanol ar gyfer diweddaru'r wybodaeth, bydd hynny'n arwain at danseilio hyder. Efallai y bydd y penderfyniad i lunio map digidol ar gyfer Cymru gyfan yn gofyn am gyflwyno gweithdrefnau newydd er mwyn cyflymu'r prosesau o ddiweddaru mapiau diffiniol.

Ar hyn o bryd, cynghorir cerddwyr a defnyddwyr hamdden eraill i ddefnyddio map papur. Sut fydd map digidol newydd yn cael effaith ar y cyngor iechyd a diogelwch hwn?

Ystyriaeth arall ar gyfer yr opsiynau a ddatblygir yw sut i ddiogelu unrhyw drefniadau digidol ar gyfer y map at y dyfodol, cyn belled ag y bo hyn yn bosibl, yng nghyd-destun datblygiadau technolegol cyflym ym maes cyfathrebu digidol. Mae perygl y gellid gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus ar system ddigidol newydd, dim ond iddi gael ei goddiweddyd yn ddiweddarach, o safbwynt rhai agweddau o leiaf, gan newidiadau technolegol ehangach. Enghraifft o hyn fyddai'r buddsoddiad a wnaed mewn apiau i hyrwyddo mynediad, a hysbysebion ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau twristiaeth, dim ond i'r platfformau hyn gael eu goddiweddyd gan wasanaethau a mapiau digidol a geir yn fasnachol y maent, o bosib, yn cynnwys gwybodaeth debyg iawn ond sydd â mwy o allu i ddatblygu a gwella ymarferoldeb.

Mae angen edrych ar enghreifftiau byd-eang eraill sydd wedi ceisio gwneud pethau tebyg. Er enghraifft, yn Sardinia, ceir map digidol gweithiol ardderchog ar gyfer twristiaid. Gallai ystyried rhai o'r enghreifftiau hyn amlygu lle ceir partneriaethau masnachol posibl ar gyfer hwyluso'r map, a fydd yn helpu i rannu rhai o'r costau.

**Materion allweddol:**

1. Beth ddylai diben y map Newydd fod? Bydd angen diffinio hyn.

2. Er mwyn darparu map(iau) diffiniol digidol o hawliau tramwy cyhoeddus, sut y dylid diwygio deddfwriaeth, gan gynnwys prosesau cysylltiedig megis y rhai ar gyfer gorchmynion addasu mapiau a gorchmynion llwybr cyhoeddus?
3. Sut y dylid diweddaru map newydd, a pha mor aml? Sut caiff hyn ei reoli a'i orfodi? Sut caiff y broses rheoli fersiynau ei rheoli?
4. Sut y gellir darparu gwybodaeth yn y ffordd orau, a sicrhau bod modd ei defnyddio ar ffurfiau gwahanol, gan gynnwys: copi caled [wedi'i argraffu], opsiynau digidol ar-lein ac all-lein, ac ar ddyfeisiau gwahanol?
5. Sut y gellir darparu gwybodaeth fel y gall trydydd partïon ddefnyddio'r data?
6. Sut y dylid monitro'r map er mwyn sicrhau manwl gywirdeb?
7. Sut y dylid safoni gwybodaeth er mwyn sicrhau cysondeb?
8. A ddylai newidiadau eraill i brosesau fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y gwaith o lanlwytho'r wybodaeth i'r map newydd yn cael ei wneud mewn modd amserol?
9. A ddylid cyflwyno newidiadau graddol? Os felly, beth a sut?

## Pethau eraill i'w hystyried

Bydd angen ystyried Diwygiad 3A yng ngoleuni diwygiadau eraill, sef diwygiadau 1A, 1B a 2A yn benodol.

# Diwygiad 3B – Cynlluniau integredig

Creu'r gofyniad i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddatblygu cynlluniau integredig ar gyfer mynediad hamdden cyhoeddus mewn ardaloedd awdurdodau lleol er mwyn hwyluso a chefnogi dulliau cyflenwi ar draws sawl maes polisi a gwaith integreiddio â gwasanaethau eraill.

Ystyriodd y grŵp arbenigol Ddiwygiad 3B o dan dair thema fel a ganlyn:

- Pam? Cwmpas a diben y cynlluniau integredig
- Pwy? Y prosesau sydd ynghlwm wrth waith datblygu'r cynlluniau integredig
- Effeithiau yn y dyfodol

Amlinellir yr elfennau a materion allweddol a ddeilliodd o'r trafodaethau isod:

## Diben

O safbwynt diben y cynlluniau, teimlwyd y gellid ei ddiffinio mewn dwy brif ffordd. Gallent ganolbwyntio, yn bennaf, ar wella'r ddarpariaeth mynediad i ddiwallu anghenion defnyddwyr, gan ymestyn, mewn ffordd gyfyngedig, ofynion presennol Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, neu gellid eu hymestyn i ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ehangach, fel cynyddu gweithgarwch neu gynnwys meysydd polisi eraill, fel iechyd a llesiant.

## Cwmpas

Unwaith y caiff y diben ei ddiffinio, bydd angen i awdurdodau lleol drafod a chytuno ar gwmpas ‘cynllun integredig’ awdurdod cyfan: a fyddent, yn syml, yn casglu eu cynlluniau presennol ynghyd mewn un ddogfen, neu a fyddent yn annog, neu'n ei gwneud yn ofynnol i'w hadrannau gwahanol ac i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gydweithio ar gynlluniau a rhaglenni mynediad hamdden i'r dyfodol er mwyn datblygu dulliau a pholisi mwy integredig ar draws ardaloedd awdurdodau lleol? Byddai'r dehongliad olaf yn darparu mwy o gydlyniad o safbwynt y gwaith o reoli tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, hawliau tramwy cyhoeddus, Llwybrau Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru, ynghyd â safleoedd a reolir, fel Parciau Gwledig, ond byddai angen ystyried unrhyw ofynion statudol ar gyfer cynlluniau a dogfennau polisi eraill. Gallai cynlluniau integredig newydd hefyd ymestyn yn ehangach fel eu bod yn cynnwys darparwyr eraill o fynediad a chyfleoedd hamdden, a meysydd polisi cysylltiedig, fel ymgorffori elfennau o deithio llesol a'r map mynediad integredig, y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, neu waith a gynllunnir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wrth reoli mynediad ar ei hystâd.

Wrth ddatblygu'r opsiynau, bydd angen pwyso a mesur y buddion o gynnwys elfennau gwahanol yng nghwmpas y diwygiad hwn, fel y meysydd polisi ychwanegol nad ydynt wedi'u cwmpasu mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar hyn o bryd.

Yn ystod y trafodaethau, cafwyd ystyriaeth hefyd ynghylch cwmpas daearyddol cynlluniau newydd, a ph'un a ddylent fod yn seiliedig ar awdurdodau lleol ynteu a ddylid eu gweithredu ar raddfa uwch er mwyn sicrhau y ceir cysylltiad â Datganiadau Ardal rhanbarthol, er enghraifft. Ystyriwyd mai graddfa awdurdod lleol fyddai fwyaf priodol, ond bydd angen ystyried yr elfen ofodol hon wrth ddatblygu'r opsiynau. Yn yr un modd, efallai y bydd yn briodol ystyried cynllun Cymru gyfan, ar wahân, ar gyfer asedau hamdden ar raddfa genedlaethol, fel Llwybr Arfordir Cymru, y Llwybrau Cenedlaethol a llwybrau pellter hir eraill a hyrwyddir.

Codwyd y cwestiwn ynghylch p'un ai prif fwriad y cynllun integredig fyddai rheoli'r gwaith o wella a darparu mynediad, neu a fyddai disgwyl i'r cyhoedd allu defnyddio cynlluniau integredig o'r fath. Yn achos yr olaf, byddai angen sicrhau bod y cynllun integredig yn gyfredol, yn hawdd cael mynediad iddo, ac yn ddibynadwy. Mae hyn yn arwain at ofyn cwestiwn ynghylch sut mae'r

cynlluniau sy'n seiliedig ar awdurdodau'n berthnasol i'r map digidol cenedlaethol a awgrymir yn Niwygiad 3A.

### Pwy ddylai fod ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau integredig?

Ystyriodd y grŵp arbenigol pwy ddylai fod ynghlwm wrth y gwaith o lunio'r cynlluniau, ac, yn benodol, pwy ddylai arwain y gwaith a phwy fyddai'r cyrff cyfrannol allweddol. Bydd angen nodi corff arweiniol er mwyn sicrhau y caiff mewnbwn yr holl gyfranogwyr ei gydlynu. Gallai'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth y gwaith gynnwys awdurdodau lleol, Parciau Cenedlaethol, CNC, a rheolwyr tir eraill, o bosib, fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaethau Natur a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Fodd bynnag, bydd pennu pwy i'w cynnwys yn y gwaith, a'u rolau wrth gydlynu'r cynlluniau integredig, yn dibynnu ar ddiben y cynlluniau. Dylid ystyried y manteision ac anfanteision o gynnwys sefydliadau cyfrannol a fyddai'n cymryd rhan ar sail wirfoddol, fel dyletswydd statudol, fel ymgynghorai neu fel partner, ynghyd â faint o ymrwymiad y byddai pob un yn ennyn gan sefydliadau gwahanol.

Gan mai'r bwriad yw y bydd y cynllun integredig yn datblygu i fod yn ofyniad statudol, teimlwyd y bydd angen sicrhau arweinyddiaeth glir a dull gweithio cyson ar draws Cymru o ran y ffordd y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i defnyddio.   Bydd angen ystyried y gofynion ymgynghori, ynghyd â'r broses i'w dilyn ar gyfer datblygu'r cynllun. Yn ystod trafodaethau'r grŵp arbenigol, ystyriwyd os gellid defnyddio'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy sydd eisoes ar waith er mwyn ffurfio craidd cynllun integredig, ynghyd â phennu proses ddiffiniol, fesul cam, amserlen, a fformat cynllun a gweithdrefnau adolygu newydd, er mwyn pontio i broses cynllun integredig newydd.

Dylid ystyried y rôl y gallai Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a fforymau mynediad lleol ei chwarae yn y broses fel rhan o waith datblygu'r opsiynau.

## Effeithiau yn y dyfodol

Dylid ystyried sut y gellir sicrhau hyfywedd hirdymor cynlluniau integredig newydd fel rhan o gam yr opsiynau. Trafododd cyfranogwyr ofynion eraill ar gyfer gwaith datblygu cynlluniau ym maes polisi mynediad a hamdden, fel Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a strategaethau cefn gwlad.  Bu'r ddau yn llwyddiannus, a hynny'n rhannol oherwydd y cyllid cysylltiedig a gafwyd ar gyfer eu gweithredu; ynghyd â hynny, mae gan bob awdurdod lleol Gynllun Gwella Hawliau Tramwy yn bennaf oherwydd eu bod yn statudol.

Gallai sicrhau cysylltiad ag agendâu eraill, o safbwynt awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, ac yn ehangach, ddwyn buddion sylweddol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a llesiant, a rhagnodi cymdeithasol. Dylid ystyried y buddion hyn ynghyd â lefel y cymhelliad a fyddai'n ofynnol i sicrhau cyfranogiad gan grwpiau rhanddeiliaid perthnasol.

Gellid hefyd cael budd o safoni ansawdd data, a'r gwaith o'i gasglu a'i gadw, ac o ddatblygu polisi mwy integredig.

**Materion allweddol:**

8. Beth fyddai diben cynlluniau integredig Newydd, a sut y dylid ei ddiffi io yn y ddeddfwriaeth?
9. Ar ba raddfa y dylid datblygu cynlluniau integredig?
10. Pwy ddylai fod ynghlwm wrth y gwaith o ddatblygu cynlluniau integredig? Pwy ddylai arwain a pha ran y dylai cyfranogwyr gwahanol ei chwarae? Sut y dylid pennu'r rolau gwahanol yn y ddeddfwriaeth?
11. Pa brosesau fydd yn ofynnol ar gyfer datblygu cynlluniau integredig? Efallai y bydd angen i hyn gynnwys trefniadau pontio [o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy], ymgynghori, a gofynion adolygu.

12. Sut y dylai'r gofynion ar gyfer y cynlluniau ystyried y diwygiadau arfaethedig eraill i fynediad?
13. Sut y dylai'r cynllun arfaethedig integreiddio â meysydd polisi a chynlluniau statudol eraill, a pha rai y dylid eu blaenoriaethu o ran eu hintegreiddio'n agosach?
14. Beth fyddai'r ffordd orau o hwyluso gwaith gweithredu'r cynlluniau arfaethedig?

## Pethau eraill i'w hystyried

Bydd angen ystyried effeithiau'r diwygiadau, yn enwedig diwygiadau 1A, 1B a 2A, a allai gynyddu'r angen i gael cynlluniau integredig, a chynyddu'r buddion y ceid yn eu sgil, yn sylweddol.